



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

Trawsnewid Addysg, Trawsnewid Bywydau

Transforming Education, Transforming Lives

Trawsnewid Addysg, Trawsnewid Bywydau
Transforming Education, Transforming Lives

www.uwtsd.ac.uk

ECAD5012

Teithoedd, Llafar a Chyfathrebu

Darlith 2

Geiriau Godidog!



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales



Trawsnewid Addysg, Trawsnewid Bywydau
Transforming Education, Transforming Lives

Trosolwg o'r gyfres o ddarlithoedd



Rhan 1

- Llafar
- Syniadau

Rhan 2

- Darllen
- Syniadau

Rhan 3

- Ysgrifennu
- Syniadau




Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales



Trawsnewid Addysg, Trawsnewid Bywydau
Transforming Education, Transforming Lives

Nod y ddarlith



codi eich ymwybyddiaeth am lyfrau Cymraeg i blant;

ystyried pwysigrwydd darllen straeon yn y dosbarth;

ystyried sut i ddefnyddio llenyddiaeth wrth ddatblygu sgiliau;

ystyried sut i ddatblygu sgiliau darllen y disgyblion.



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales



Trawsnewid Addysg, Trawsnewid Bywydau
Transforming Education, Transforming Lives

Datblygu sgiliau Darllen₂ yng Nghyfnod Allweddol

Dylid ystyried yn holistaidd y pedwar datganiad sy'n nodi'r hyn sy'n bwysig yn y Maes hwn. Golyga hyn y dylid archwilio gwahanol ieithoedd mewn perthynas â'i gilydd, yn ogystal â sgiliau gwrando, siarad, **darllen** ac ysgrifennu. Golyga hyn hefyd y dylid ystyried dysgu am a thrwy lenyddiaeth fel rhywbeth sy'n cyfrannu at holl agweddau dysgu am ieithoedd. Mae'r datganiadau yn cefnogi a chadarnhau'i gilydd. Gyda'i gilydd maen nhw'n cyfrannu at wireddu pedwar diben y cwricwlwm.

Llywodraeth Cymru (2020) Canllawniau Cwricwlwm i Gymru. Ar gael ar: <https://hwb.gov.wales/api/storage/e5aad94a-d71a-471d-a869-6fa8bde9837e/canllawiau-cwricwlwm-i-gymru-070220.docx> Gymru

Cwricwlwm i Gymru

Mae'r adran ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu o'r Cwricwlwm 2022 wedi ei rannu i bedwar

Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig

1	2	3	4
Mae <u>ieithoedd</u> yn <u>ein cysylltu â'n gilydd</u>. 	Mae <u>deall ieithoedd</u> yn <u>allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch</u>. 	Mae <u>mynegi ein hunain drwy ieithoedd</u> yn <u>allweddol i gyfathrebu</u> 	Mae <u>llenyddiaeth</u> yn <u>tanio'r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd</u>. 

Creu amgylchedd sy'n gyfoethog o ran iaith

.....dylid ystyried dysgu am a thrwy lenyddiaeth fel rhywbeth sy'n cyfrannu at holl agweddau dysgu am ieithoedd ..


Llywodraeth Cymru (2020) Canllawniau Cwricwlwm i Gymru. Ar gael ar:
<https://hwb.gov.wales/api/storage/e5aad94a-d71a-471d-a869-6fa8bde9837e/canllawiau-cwricwlwm-i-gymru-070220.docx> Gymru



Mae llenyddiaeth yn tanio'r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd.

Cymraeg/Saesneg

Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5
Rwy'n gallu ymuno â chaneuon, rhigymau, straeon a cherddi cyfarwydd. Rwy'n gallu ailadrodd straeon. Rwy'n gallu ymateb yn greadigol i'r ystod o lenyddiaeth rwy'n ei chlywed, ei ddarllen neu'n ei weld.	Rwy'n gallu gwrandao ar farddoniaeth, drama a rhyddiaith, a'u cofio. Rwy'n gallu ailadrodd straeon mewn ffordd greadigol. Rwy'n gallu defnyddio fy nychymyg i ymateb i lenyddiaeth a'i haddasu i greu fy ngwaith fy hun.	Rwy'n gallu cynnig sylwadau ar lenyddiaeth a gwneud cysylltiadau rhwng yr hyn rwy'n ei glywed, ei ddarllen a'i weld. Rwy'n gallu defnyddio'r hyn rwy'n ei wybod am arddulliau ysgrifennu a nodweddion gwahanol genres llenyddol er mwyn creu fy ngwaith fy hun.	Rwy'n gallu archwilio amrywiaeth eang o genres, gan arbrofi gyda dewisiadau iaith a thechnegau ar gyfer fy nibenion creadigol fy hun.	Rwy'n gallu mynd i'r afael ag amrywiaeth eang o genres llenyddol er mwyn archwilio a saernïo fy ngwaith fy hun.
Rwy'n gallu defnyddio geiriau ac ymadroddion cyfarwydd ac arbrofi â geirfa rwyf newydd ei dysgu.	Rwy'n gallu defnyddio fy nychymyg i greu fy llenyddiaeth fy hun.	Rwy'n gallu defnyddio fy nychymyg ac arbrofi gydag iaith i greu fy llenyddiaeth fy hun.	Rwy'n gallu defnyddio fy nychymyg ac arbrofi gyda gwahanol ffurfiau a thechnegau creadigol er mwyn creu fy llenyddiaeth fy hun.	Rwy'n gallu arbrofi gyda a chreu fy llenyddiaeth fy hun.




Rwy'n gallu ymateb i'r hyn rwy'n ei glywed, ei ddarllen a'i weld, ac rwy'n gallu mynegi barn syml ar hyn. Rwy'n dechrau gofyn ac ateb cwestiynau i wella fy nealltwriaeth.	Rwy'n gallu ymateb i'r hyn rwy'n ei glywed, ei ddarllen a'i weld, gan ofyn cwestiynau a dangos fy nealltwriaeth. Rwy'n gallu adnabod nodweddion gwahanol fathau o lenyddiaeth a defnyddio iaith briodol i siarad amdany'n nhw.	Rwy'n gallu ystyried plot, cymeriad, thema a chyddestun y lenyddiaeth rwy'n ei phrofi, gan gefnogi fy syniadau a'm barn gyda thystiolaeth o'r lenyddiaeth. Rwy'n gallu gwneud cysylltiadau rhwng yr hyn rwy'n ei glywed, ei ddarllen a'i weld.	Rwy'n gallu archwilio, dadansoddi a chymharu syniadau allweddol gan ddefnyddio terminoleg briodol, a chefnogi fy marn gyda manylion priodol o'r testun.	Rwy'n gallu gwerthuso cysyniadau allweddol yn feirniadol ynghyd ag effaith dewisiadau iaith a thechnegau ar y darllenwyr/gwylwyr gan ddefnyddio detholiad cadarn o fanylion perthnasol o'r testun.
	Rwy'n dechrau dangos empathi gyda chymeriadau mewn lenyddiaeth.	Rwy'n gallu dangos empathi wrth ymateb i lenyddiaeth ac rwy'n deall y gall fod gan bobl eraill farn wahanol i mi.	Rwy'n gallu gwerthfawrogi lenyddiaeth, gan ddangos empathi ynghyd â dealltwriaeth y gall lenyddiaeth gael ei dehongli mewn gwahanol ffyrdd.	Rwy'n gallu gwerthfawrogi lenyddiaeth, gan ddangos empathi wrth werthuso gwahanol ddehongliadau ohoni, gan gynnwys fy nehongliad fy hun.

Cymraeg mewn lleoliadau/ysgolion/ffrydiau cyfrwng Saesneg

Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5
Rwyf wedi profi lenyddiaeth .	Rwyf wedi profi ystod o lenyddiaeth. Rwy'n gallu gwrando ar farddoniaeth, drama a rhyddiaith, a'u cofio.	Rwy'n gallu gwrando ar farddoniaeth, drama a rhyddiaith, gan eu cofio a'u haddasu mewn ffordd greadigol.	Rwy'n gallu defnyddio'r hyn rwy'n ei wybod am arddulliau ysgrifennu a nodweddion gwahanol lenyddiaeth er mwyn creu fy ngwaith fy hun.	Rwy'n gallu archwilio amrywiaeth eang o lenyddiaeth , gan arbrofi gyda dewisiadau iaith a thechnegau ar gyfer fy mhwrpas creadigol fy hun.





Iechyd a Lles

Llywio'r fframwaith Cwricwlwm i Gymru

Y pedwar diben

Y pedwar diben yw'r man cychwyn a'r uchelgais a'r gyfer cyllun cwrwllwm ysgolion. Dylun rhwng llywio gweledigaeth ysgolion a phrosesu cyllunio'r cwrwllwm ac asesiadau.

Tre'u gweledigaeth ar gyfer ynyllunio'r cwrwllwm

Wrth i chi ddatblygu eich cwrwllwm a'ch treffiadau asesu, mae'r adrannau hyn yn nodi'r hyn y dylid ei ystyried wrth gynllunio pob rhan o'ch cwrwllwm.

Meysydd dysgu a phrofiad

Mae'r cwrwllwm yn trefnu pynciau ym Meysydd. Mae'r rhain yn hybu parhau a chynnydd mewn dysgu wrth gynnal dysgu disgyslaethol. Mae pob Maes yn cynnwys datganiadau o'r hyn sy'n bwysig, egwyddonion cynnydd, disgrifiadau dysgu ac adran cynllunio eich cwrwllwm.

Themâu trawsgwricwlaidd

Dylid ymgorffori'r themâu trawsgwricwlaidd Cwricwlwm i Gymru mewn dysgu yn rhob rhan o'r cwrwllwm.

Sgiliau cyfannol

Mae sgiliau cyfannol yn sail i'r pedwar diben a dylid eu datblygu o lew ystod eang o ddysgu ac addysgu. Wrth wradd y sgiliau hyn y mae pwysigrwydd dysgwyr yn cydnabod, yn defnyddio ac yn creu gwerth o wahanol fathau, gan gynnwys gwerth ariannol, diwyllianol, cymdeithasol a dysgu.

Sgiliau trawsgwricwlaidd

Mae llythrennedd, rhifedd a chymhysedd digidol yn sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol o lew Cwricwlwm i Gymru. Bydd pob ymarferydd ym rhob Maes yn gyfrifol am ddatblygu'r sgiliau hyn a sicrhau cynnydd ynddyn nhw.

dysgwyr uchelgeisiol, galluog

cyframwyr mentrus, creadigol

dinasyddion egwyddorol, gwybodus

unigolion iach, hyderus

Cynllunio eich cwrwllwm

Cynnydd ac Asesu

Y Celfyddydau Mynegiannol

Iechyd a Lles

Y Dyniaethau

Iechyd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Mathemateg a Rhifedd

Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Addysg cydberthymas a rhywioldeb

Hawliau dynol

Amrywiaeth

Addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith

Cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol

Creadigrwydd ac arloesi

Yn gyfrifol o'r problemau

Effeithiolrwydd personol

Cynllunio a threfnu


Fframwaith Llythrennedd

Fframwaith Rhifedd

Fframwaith Cymhwysedd Digidol

Y daith i weithredu'r cwrwllwm

Mae hyn yn darparu casgliad cyffredin o ddigwyliadau, gwybodaeth ategol a chwestiynau allweddol i gefnogi ysgolion a lleoliadau yn y broses barhaus o gynllunio'r cwrwllwm.



Ydy darllen yn bwysig yng Nghyfnod Allweddol Dau?



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales



Trawsnewid Addysg, Trawsnewid Bywydau
Transforming Education, Transforming Lives

Pam bod darllen i ddisgyblion CA2 yn bwysig?

- Faint ohonyn nhw sy'n byw mewn cartref lle mae oedolyn yn darllen gyda nhw heb sôn am iddyn nhw? (ystyriwch hyn)
- Modelu beth yw darllen da. (Mae'n sgîl sy'n rhaid i chi ei hymarfer)
- Cyfle i gyflwyno a dysgu geiriau / ymadroddion / idiomau newydd.
- Ffordd dda o ddatblygu sgiliau Llafaredd.
- Ffordd dda o ddatblygu sgiliau Gwrando.
- Ffordd dda o drafod a datblygu syniadau newydd.
- Ffordd dda o gyflwyno testunau newydd (o bob math).
- Cyfle da i feithrin diddordeb a chariad ein disgyblion tuag at lenyddiaeth.

Faint o awduron llyfrau plant fedrwch chi eu henwi?

T Llew
Jones

Angharad Tomos

Elin Meek

Manon Steffan Ros

Gwen Redvers
Jones

Myrddin ap Dafydd

Bethan
Gwanas

Haf
Llywelyn


Mererid
Hopwood

Emily Huws




Llenyddiaeth ... beth sydd ar gael?




Cyfres Y Gwybodyn




chwedlau



Cyfres Pen-i-waered



Nofelau am hanes Cymru




Cyfres Lolipop




Cyfres Y Geiniog



Barddoniaeth



... a llawer iawn mwy!





Wylt chi ddiwylt chi?
Mae chi'n gyswrtu'n ddwyfod y dydd.

Enw, sefidi a chet'n rhannu. Rhannu'n gynt i'r awyrennau yn hysbennu cerbydau, cerbydau cyffwrdd a MCGonwylt, a'r hysbennu'n ddwyfod y dydd. Mae chi'n gyswrtu'n ddwyfod y dydd.

Wylt chi ddiwylt chi?
Mae chi'n gyswrtu'n ddwyfod y dydd.

Wylt chi ddiwylt chi?
Mae chi'n gyswrtu'n ddwyfod y dydd.

Wylt chi ddiwylt chi?
Mae chi'n gyswrtu'n ddwyfod y dydd.

Wylt chi ddiwylt chi?
Mae chi'n gyswrtu'n ddwyfod y dydd.

Wylt chi ddiwylt chi?
Mae chi'n gyswrtu'n ddwyfod y dydd.

Wylt chi ddiwylt chi?
Mae chi'n gyswrtu'n ddwyfod y dydd.

Wylt chi ddiwylt chi?
Mae chi'n gyswrtu'n ddwyfod y dydd.

Wylt chi ddiwylt chi?
Mae chi'n gyswrtu'n ddwyfod y dydd.

LYFR Y MIS




LlyfryMis Book of the Month

[illegible]

Llyfrau a mwy ...

Gwobrau sy'n benodol ar gyfer llenyddiaeth plant a phobl ifainc



Adnoddau gan Llyfrau Cymru ar HWB:

<https://hwb.gov.wales/repository/publisher/s/d9b95770-3104-44d0-9261-0cbb2ee9d42e>



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales



Trawsnewid Addysg, Trawsnewid Bywydau
Transforming Education, Transforming Lives


Darllenwch!

Mae llenyddiaeth yn tanio'r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd.




Yn y cyfnodau cynnar, mae dysgu darllen yn **ddibynnol** ar yr **iaith lafar** sydd gan ddysgwyr. Felly mae datblygu sgiliau gwranddo a siarad da yn angenrheidiol i lwyddo wrth ddysgu darllen.

Gall dysgwyr ifanc fod yn gyfarwydd â llyfrau stori, hwiangerddi a phrint wrth iddyn nhw ddechrau addysg ffurfiol. Bydd rhai wedi dechrau adnabod llythrennau unigol a geiriau.




Adrodd stori



- Nid rhywbeth newydd yw'r grefft o adrodd stori.
- Mae'n filoedd o flynyddoedd oed gyda phobl yn mwynhau diddanu ei gilydd drwy adrodd stori.
- Gall bobl fwynhau rhannu stori, action stori neu berfformio stori.
- Mae gan bob cenedl ei thraddodiad ei hun ac mae'r traddodiad hwnnw wedi newid ac esblygu dros y canrifoedd.

Munud i feddwl ...


Pa fathau gwahanol o ddarllen sy'n digwydd mewn dosbarthiadau?



Math?	Pwy sy'n darllen?	Faint o ddisgyblion?	Lefel ddarllen?	Pa mor aml?	Amrywiaeth testun?	Pwrrpas?
Stori dosbarth	Athro	Dosbarth gyfan	Gall fod llawer yn uwch os yw'r testun yn ddiddorol	Dyddiol yn ddelfrydol, diwedd dydd?	Llawer o ffuglen ond ffeithiol hefyd	Athro yn modelu y broses ddarllen ac i'r disgyblion fwynhau
Darllen ar y cyd	Athro	Dosbarth gyfan	Ychydig yn uwch na lefel y disgyblion	Cyson	Ffuglen neu ffeithiol	Modelu sgiliau darllen penodol
Darllen grŵp dan arweiniad	Athro neu ddisgybl	3 – 6 disgybl	Ar lefel y disgybl neu'n uwch	Cyson	Pob math	Nod yw bod y disgybl yn darllen yn rhugl gan ddadansoddi
Darllen pâr	Athro a disgybl	2 ddisgybl	Ar lefel y disgybl neu'n uwch	Cyson	Pob math	Trafod cynnwys a geiriau anghyfarwydd
Darllen annibynnol	Disgybl unigol	1 disgybl	Lefel darllen y disgybl	Mor aml a phosib	Amrywiaeth o lenyddiaeth	Disgybl yn gallu ymarfer ac i ddatblygu hoffter o lyfrau

Grwpio yn unol â gofynion y dasg ...

mewn rhesi wrth fwrdd




mewn grŵp wrth fwrdd



mewn parau wrth fwrdd



Y dosbarth cyfan
mewn siâp pendol



Mewn un cylch mawr
ar y llawr neu ar
gadeiriau

Defnyddio llyfr stori fel sbardun

Ydy'r llyfr stori / testun yn addas i'r oed / dosbarth dan sylw?

Ydy'r llyfr stori / testun yn cynnig digon o gyfleoedd i ddatblygu sgiliau iaith?

Ydy'r llyfr stori / testun yn mynd i apelio at blant y dosbarth?

Ydy'r llyfr stori / testun yn cynnig digon o cyfleoedd i ddatblygu sgiliau traws gwricwlaidd?

Ydy'r llyfr stori / testun wedi cael ei ysgrifennu'n dda?

Mae hi'n amser stori ...

Cyfle i
ddatblygu
syniadau
newydd

Cyfle i
ymlacio!

Cyfle i
ddysgu
geiriau
newydd

Cyfle i
fwynhau!

Creu naws
arbennig

Cyfle i
drafod
syniadau

Cyfle i
fynegi
barn

Wrth drafod testun ffeithiol, defnyddiwch

ffaith

ffeithiau

ffeithiol

clawr blaen

broliant

awdur(es)

clawr cefn

teitl

is-deitl

paragarff

cynnwys

pwyntiau bwled

gwybodaeth

rhestr

ffotograff

llun

Wrth drafod ffuglen, defnyddiwch

ffuglen

stori

clawr blaen

clawr cefn

nofel

stori fer

awdur(es)

teitl

atalnodi

cymeriadau

cynnwys

lleoliad

digwyddiadau

trobwynt

idiom(au)

disgrifiad

neges

perthynas

Wrth drafod barddoniaeth, defnyddiwch ...

cerdd

barddoniaeth

bardd

pennill

penillion

cwpled

cwpledi

odl

patrwm odl

neges

disgrifiadau

effaith

gwybodaeth

teimlad(au)

rhestr

naws

Pa fath o stori?

nofel

stori fer

chwedl

stori / nofel
hanesyddol

stori
antur

stori
wir

stori
draddodiadol

stori
ffantasiol

stori
ysbryd

Cerdd yr wythnos

Beth ydy
teitl y
gerdd?

Pwy ydy'r
bardd?

Sawl pennill
sydd yn y
gerdd?

Enfys yn y ffenest

Mae enfys yn y ffenest,
pob ffenest yn y stryd
ag enfys fach i ddiolch
i'r gweithwyr gorau i gyd.


Mae enfys yn y ffenest
a'r ffenest eto draw
ac enfys arall wedyn
yn obaith wedi'r glaw.

Llund gwlad o guro dwylo
a chanu'r anthem fach
llond gwlad o aros adref
i gadw pawb yn iach.

Ac er bod sgwrsio'n gysur
gydag eraill dros y we,
mae hiraeth yn fy nghalon
am weld ffrindiau hyd y lle.

A phan gaf unwaith eto
fynd allan i gwrdd â'r criw,
bydd enfys dros y cyfan
a bydd y byd mewn lliw.

Tudur Dylan Jones













Oes odl yn y
gerdd?
Beth ydy'r
patrwm odl?

Beth yw
neges y
gerdd?

Ydych chi'n
hoffi'r gerdd?
Pam? Cofiwch
gynnwys
rhesymau.

Dysgu drwy thema ...



Dewch i ddarllen gyda fi...


1. Cyflwyno'r cysyniad o "sach stori".

2. Trafod y clawr:

- Beth fedrwch chi weld?
- Cyflwyno geirfa newydd (efallai enwau Cymraeg am enwau Saesneg)
- Pwy fydd y cymeriadau?
- Beth yw'r teitl?
- Pwy yw'r awdur?
- Pa fath o naws mae'r clawr yn ei chreu?
- Ydy'r clawr yn apelgar? Pam?
- Beth yw ystyr "Cyfres Pen-i-waered"? Ydych chi'n hoffi'r syniad yma? Pam?

3. Datblygu sgiliau meddwl ehangach:

- Pwy, yn eich barn chi, yw'r prif gymeriad?
- Beth yw'r Wyddfa?
- Wrth ddarllen ymlaen, pa gwestiynau hoffech chi gael atebion iddyn nhw?
- Beth ydych chi'n meddwl fydd yn digwydd yn y stori hon?
- Ydych chi'n meddwl eich bod chi'n mynd i fwynhau? Pam?
- Ydych chi'n gwybod unrhyw ffeithiau am Yr Wyddfa? Rhannwch nhw!



Meddwl - paru - rhannu

- Ar ôl gwranddo ar y stori, gallwch asesu dealltwriaeth y disgyblion o gynnwys y stori drwy ofyn iddyn nhw: Beth ddysgoch chi am ...? Rhowch amser iddyn nhw feddwl am yr ateb.
- Rhowch gyfle iddyn nhw rannu eu syniadau gyda'u partner siarad.
- Rhowch gyfle i'r partneriaid siarad ymuno â phâr arall i ffurfio grwp.
- Mantais hyn, yw rhoi cyfle i'r disgyblion fagu hyder cyn rhannu eu ffeithiau gyda'r dosbarth cyfan.

1. Meddwl yn unigol.

2. Rhannu gyda phartner.

3. Cynnal trafodaeth grwp.



Beth yw 'strategaethau darllen'?

- Cam cynnydd 1: 'Rwyn gallu defnyddio unedau sain o amrywiol feintiau er mwyn dysgu darllen'
e.e. llythrennau unigol / geiriau cytsain - llafariad - cytsain / cytseiniaid
clwm,
e.e. cl, dr, br / llafariaid clwm, e.e. ae, wy, ei / dechrau adnabod geiriau aml eu defnydd
- Cam Cynnydd 1: 'Rwyn gallu segmentu a chyfuno'

e.e.

$m + a + e = mae$

$d + y + m + a = dyma$

Beth yw 'strategaethau darllen'?

- Cam Cynnydd 2: 'Rwyn gallu defnyddio cyfatebiaethau graffem-ffonem wrth ddarllen'
e.e. cyfateb swm llythyren neu glwstwr o lythrennau gyda'r print gweledol
- Cam Cynnydd 2: 'Rwyn gallu defnyddio ystod o strategaethau i ddarllen gyda rhugler cynyddol'
e.e. adnabod geiriau aml eu defnydd / adnabod rhan o eiriau, e.e. olwyn / olwynion
- Cam Cynnydd 2: 'Rwyn gallu darllen gwahanol destunau gan ddefnyddio ystod o strategaethau i bennu ystyr'
e.e. defnyddio'r cyd-destun / ydy'r gair yn debyg i air arall? / beth yw'r thema? / beth sy'n gwneud synnwyr? / oes cliw ar y dudalen? E.e. llun / is-deitl / graff / deigram

Beth yw 'strategaethau darllen'?

- Cam Cynnydd 3: 'Rwyn gallu darllen testunau gan ddewis strategaethau sy'n rhoi mwyaf o gymorth i mi eu deall. Gallai'r strategaethau hyn gynnwys gweithio ar draws 'fy ieithoedd'

e.e. adnabod patrymau, e.e. geiriau unigol / a lluosog / teuluoedd geiriau / ystyr geiriau Cymraeg / Saesneg, darllen teitlau / is-deitlau, edrych ar luniau

- Cam Cynnydd 3: 'Rwyn gallu cymharu gwahanol bethau rwyn eu darllen'

e.e. testun ffeithiol / testun ffuglen / stori a cherdd, a.y.y.b.

Beth ydy 'Darllen Grwp'?



- Mae **DARLLEN GRWP** yn ffordd effeithiol iawn o ddatblygu sgiliau darllen dysgwyr.
- Rhaid cael dysgwyr tebyg eu gallu mewn grwp gyda uchafswm o 6 mewn nifer.
- Bydd yr athro / athrawes / oedolyn yn arwain y sesiwn.
- Bydd y testun darllen yn destun anghyfarwydd i'r dysgwyr.
- Yn ystod y sesiwn bydd cyfle am ddarllen unigol, tawel neu / a darllen ar y cyd.
- Wrth ddarllen bydd cyfle i drafod strategaethau fydd yn helpu'r dysgwyr wrth ddatblygu eu sgiliau darllen, e.e. segmentu geiriau / edrych ar y cyd-destun, a.y.y.b.
- Bydd y sesiwn yn para tua 20 munud.
- Cofiwch, bydd angen paratoi cwestiynau addas o flaen llaw.

Guiding Readers – Layers of meaning

A handbook for teaching reading comprehension to 7–11 year olds

Wayne Tennent
David Reedy
Angela Hobsbaum
Nikki Gamble

'Guided reading' is a commonly used term across the English-speaking world to describe the teaching of reading in small groups. The approach originated in the 1960s in New Zealand (Simpson, 1966) to accompany a newly published set of early reading books.

It was introduced in England in 1998 through the National Literacy strategy and became a recognized feature of literacy lessons throughout primary school.

Sut mae cynnal sesiwn 'Darllen Grwp'?

- Rhannwch y dysgwyr i grwpiau o 4 i 6 disgybl.
- Gwnewch yn siwr eu bod o'r un gallu darllen.
- Dewisiwch destun fydd yn apelio atynt.
- Ystyriwch, pa gwestiynau fydd yn addas i'w gofyn am y testun, wrth ddatblygu eu sgiliau darllen?
- Wrth ddarllen, dangoswch a dysgwch strategaethau fydd yn eu helpu wrth ddatblygu i fod yn ddarllenwyr annibynnol.



Beth yw manteision 'Darllen Grwp'?

- Mae disgyblion yn darllen testun sydd yn addas ar gyfer eu lefel darllen bersonol.
- Mae 'Darllen Grwp' yn rhoi cyfle i ddisgyblion fagu hyder mewn darllen.
- Mae 'Darllen Grwp' yn rhoi amser a chyfle i drafod a chynnig **strategaethau** gwahanol wrth ddatblygu sgiliau darllen.
- Mae 'Darllen Grwp' yn rhoi cyfle i ddisgyblion fwynhau llyfrau / testun darllen.
- Mae 'Darllen Grwp' yn datblygu sgiliau Llafar, Gwrando a Darllen y disgyblion.

Creu cwestiynau ...

Lefel 5 - CREU


Lefel 5 - GWERTHUSO

Lefel 4 - DADANSODDI

Lefel 3 - CYMHWYSO

Lefel 2 - DEALLTWRIAETH

Lefel 1 - COFIO



Bloom's taxonomy (revised)

Level 6	Can the learner create a new product or point of view?	assemble, construct, create, design, develop, formulate, write
Level 5	Can the learner justify a stand or decision?	appraise, argue, defend, judge, select, support, value, evaluate
Level 4	Can the learner distinguish between different parts?	appraise, compare, contrast, criticise, differentiate, discriminate, distinguish, examine, experiment, question, test
Level 3	Can the learner use information in a new way?	choose, demonstrate, dramatise, employ, illustrate, interpret, operate, schedule, sketch, solve, use, write
Level 2	Can the learner explain ideas or concepts?	classify, describe, discuss, explain, identify, locate, recognise, report, select, translate, paraphrase
Level 1	Can the learner recall or remember the information?	define, duplicate, list, memorise, recall, repeat, state

Bloom's Taxonomy

Munud i feddwl ...



Meddyliwch am un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill. Sut fydddech chi'n defnyddio rhai o'r syniadau hyn i ddatblygu sgiliau darllen y dysgwyr?

Dysgu DARLLEN drwy thema: Tua'r Copa

Darllen testun ffeithiol, e.e. am

- flodau prin
- ddefaid
- anifeiliaid sy'n byw yng nghynefin Yr Wyddfa / Parc Cenedlaethol Eryri
- Kyffin Williams (a dylanwad Eryri ar ei waith
- waith achubwyr mynydd

Darllen stori arall am yr Wyddfa a chymharu'r ddwy

Darllen chwedlau am ardal yr Eryri

Darllen barddoniaeth am ardal yr Eryri

Darllen unigol

Darllen pêr

Darllen grwp

Datblygu sgiliau Darllen ar draws y cwricwlwm – fesul cam cynnydd

Llythrennedd – Darllen ar draws y cwricwlwm

Cam cynnydd 1

Elfennau	Agweddau	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:
Canfod, dethol a defnyddio gwybodaeth	Strategaethau darllen	- dewis gwahanol fathau o ddeunyddiau darllen, gan gynnwys llyfrau - adnabod geiriau cyfarwydd, e.e. <i>eu henwau eu hunain</i>, a phrint yn yr amgylchedd, e.e. <i>logos</i> - dehongli ystyr drwy luniau mewn llyfrau, gan ychwanegu manylion wrth esbonio - adnabod lluniau ar sgrin a dehongli eu hystyr	- dewis deunyddiau darllen gan gynnwys llyfrau - adnabod bod geiriau'n cael eu ffurfio o ffonemau (synau) a bod ffonemau'n cael eu cynrychioli gan graffemau (llythrennau ysgrifenedig): - cyfuno cyfuniadau o lythrennau - segmentu cyfuniadau o lythrennau - darllen geiriau syml megis geiriau cytsain-llafariad-cytsain - darllen penawdau a thestunau syml gan adnabod geiriau aml eu defnydd - dangos ymwybyddiaeth o'r atalnod llawn wrth ddarllen - dangos ymwybyddiaeth o'r gwahaniaeth rhwng storiâu a thestunau gwybodaeth - deall ystyr nodweddion gweledol y testun, e.e. <i>darluniau, ffotograffau, diagramau a siartiau</i> - adnabod geiriau a lluniau ar sgrin a deall eu hystyr
	Darllen a deall	- cofio manylion stori neu destun drwy ateb cwestiynau penagored neu ddefnyddio lluniau i'w helpu - dechrau gwneud cysylltiadau â'u profiadau eu hunain wrth wrando ar lyfrau/testunau neu wrth edrych arnynt	- ail-ddweud storiâu cyfarwydd mewn ffordd syml - adnabod gwybodaeth o destun gan ddefnyddio nodweddion gweledol a geiriau - perthnasu gwybodaeth a syniadau o destun gyda phrofiad personol
Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd	Ymateb a dadansoddi	- dangos diddordeb mewn llyfrau a mwynhau eu cynnwys - dilyn llyfrau lluniau a thestunau a ddarllenir iddynt ac ymateb yn briodol.	- dangos diddordeb mewn llyfrau a deunyddiau darllen eraill ac ymateb i'w cynnwys - dilyn testunau sy'n cael eu darllen iddynt gan ymateb yn briodol.

<https://hwb.gov.wales/api/storage/6dfd1807-63b9-410d-bc1f-ed3e2bfd75b8/fframwaith-llythrennedd-a-rhifedd-cenedlaethol-taenlen-llythrennedd-darllen-ar-draws-y-cwricwlwm-cwricwlwm-2022.pdf>

Datblygu sgiliau Darllen ar draws y cwricwlwm - fesul cam cynnydd

Llythrennedd – Darllen ar draws y cwricwlwm

Cam cynnydd 2

Elfennau	Agweddau	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:
Canfod, dethol a defnyddio gwybodaeth	Strategaethau darllen	- dewis deunyddiau darllen ac esbonio ystyr testun a pham maent yn ei hoffi - defnyddio'r strategaethau darllen a ganlyn yn fwyfwy annibynnol: - strategaethau ffonig i ddatgodi geiriau - adnabod geiriau aml eu defnydd - diwiau'r cyd-destun, e.e. <i>gwybodaeth flaenorol</i> - diwiau graffig a chystrawennol - hunan-gywiro gan gynnwys ailddarllen a darllen ymlaen - darllen testunau addas yn gywir ac yn rhugl - darllen ar goedd gan roi sylw i'r atalnod llawn a'r gofynnod - darllen ar goedd â mynegiant, gan ddangos ymwybyddiaeth o'r ebychnod a dyfynodau - adnabod nodweddion testun syml megis teitlau a lluniau er mwyn esbonio'r testun - chwilio am gliwiau yn y testun er mwyn deall gwybodaeth - deall ystyr nodweddion gweledol a'u cysylltiad â'r testun ysgrifenedig, e.e. <i>darluniau, ffotograffau, diagramau a siartiau</i> - adnabod geiriau a lluniau ar sgrin sy'n gysylltiedig â phwnc	- dewis deunyddiau darllen yn annibynnol gan roi rhesymau dros eu dewisiadau - defnyddio'r strategaethau darllen a ganlyn yn fwyfwy annibynnol ar gyfer ystod ehangach o destunau cyfarwydd ac anghyfarwydd: - strategaethau ffonig - adnabod geiriau aml eu defnydd - diwiau'r cyd-destun, e.e. <i>gwybodaeth flaenorol</i> - diwiau graffig a chystrawennol - hunan-gywiro, gan gynnwys ailddarllen a darllen ymlaen - darllen ystod ehangach o destunau addas yn fwyfwy cywir a rhugl - darllen ar goedd gan roi sylw i'r atalnodi, gan gynnwys atalnod llawn, gofynnod, ebychnod a dyfynodau, gan amrywio goslef, llais a chyflymder - adnabod a defnyddio nodweddion testun, e.e. <i>teitlau, penawdau a lluniau</i>, i ganfod a deall gwybodaeth benodol - chwilio am eiriau allweddol i ganfod am beth mae'r testun yn sôn - defnyddio holl nodweddion gwahanol y testunau i ddeall eu hystyr, e.e. <i>lluniau, siartiau a'r cynllun</i> - adnabod geiriau allweddol er mwyn chwilio am wybodaeth ar sgrin, a newid y geiriau chwilio yn ôl yr angen	- defnyddio ystod o strategaethau i ddeall ystyr geiriau a brawddegau, gan gynnwys gwybodaeth ffonig, gwreiddiau geiriau, teuluoedd geiriau, cystrawen, trefn testun a gwybodaeth flaenorol am y cyd-destun - darllen testunau gwybodaeth byr yn annibynnol gan ganolbwyntio - darllen ar goedd gan ddefnyddio atalnodi i helpu'r mynegiant - cip ddarllen (sgimio) i gael trosolwg ar destun, e.e. <i>pwnc, diben</i> - chwilio am wybodaeth benodol mewn testunau gan ddefnyddio cynnwys, mynegeion, geirfâu, geiriaduron - adnabod dibenion gwahanol testunau, e.e. <i>rhoi gwybodaeth, cyfarwyddo, esbonio</i> - adnabod sut mae testunau'n cael eu trefnu, e.e. <i>rhestr, pwyntiau â rhifau, diagramau â saethau, tablau a phwyntiau bwled</i> - defnyddio cliwiau gweledol, e.e. <i>darluniau, ffotograffau, diagramau a siartiau</i>, er mwyn gwella dealltwriaeth - dod o hyd i wybodaeth ar dudalennau gwe gan ddefnyddio nodweddion sgrin, e.e. <i>barrau offer, barrau ochr, penawdau, saethau</i>
	Darllen a deall	- ail-ddweud digwyddiadau o ddarn o naratif yn y drefn gywir - adnabod gwybodaeth sy'n gysylltiedig â chynnwys testun - dwyn i gof fanylion o destunau gwybodaeth - defnyddio profiad personol er mwyn gallu deall testunau'n well	- dwyn i gof ac ail-ddweud naratifau a gwybodaeth o destunau gan gynnwys rhai manylion - codi gwybodaeth o destun yn gywir a'i didoli'n categorïau neu o dan benawdau - esbonio manylion perthnasol o destunau - defnyddio profiad personol perthnasol a gwybodaeth flaenorol i ategu dealltwriaeth o destunau	- nodi'n gywir bwnc a phrif syniadau testun, e.e. <i>drwy uwcholeuo, gan ddefnyddio geiriau allweddol y testun</i> - dod i gasgliad ynglŷn â syniadau a gwybodaeth drwy gysylltu gosodiadau pendant, e.e. <i>achos ac effaith</i> - cymryd diddordeb mewn gwybodaeth y tu hwnt i'w profiad personol
Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd	Ymateb a dadansoddi	- mynegi barn am wybodaeth yn y testun - archwilio iaith, gwybodaeth a digwyddiadau mewn testunau - gwneud cysylltiadau rhwng testunau a ddarllenwyd a gwybodaeth arall am y pwnc.	- mynegi barn am wybodaeth gan ddefnyddio manylion o'r testun - dangos dealltwriaeth a mynegi barn am iaith, gwybodaeth a digwyddiadau mewn testunau - gwneud cysylltiadau rhwng testunau a ddarllenwyd a gwybodaeth newydd am y pwnc.	- defnyddio gwybodaeth o destun wrth drafod neu wrth ysgrifennu - gwneud cysylltiadau rhwng yr hyn y maent yn ei ddarllen a'r hyn y maent eisoes yn ei wybod a'i gredu am y pwnc.



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales



Trawsnewid Addysg, Trawsnewid Bywydau
Transforming Education, Transforming Lives

Datblygu sgiliau Darllen ar draws y cwricwlwm - fesul cam cynnydd

Llythrennedd – Darllen ar draws y cwricwlwm		Cam cynnydd 3		
Elfennau	Agweddau	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:
Canfod, dethol a defnyddio gwybodaeth	Strategaethau darllen	- defnyddio ystod o strategaethau i ddeall ystyr geiriau a brawddegau, gan gynnwys gwybodaeth ffonig, gwreiddiau geiriau, teuluoedd geiriau, cystrawen, trefn testun a gwybodaeth flaenorol am y cyd-destun - darllen testunau, gan gynnwys testunau heb fawr o gliwiau gweledol, yn annibynnol, gan ganolbwyntio - defnyddio dealltwriaeth o gystrawen y frawddeg ac atalnodi i ddeall ystyr - cip ddarllen (sgimio) i gael prif neges testun neu'r prif syniad mewn pennod - llithr ddarllen (sganio) am wybodaeth benodol gan ddefnyddio amryw o nodweddion mewn testunau, e.e. <i>teitlau, darluniau, geiriau allweddol</i> - adnabod sut mae testunau'n gwahaniaethu yn ôl eu diben, eu strwythur a'u cynllun - dod o hyd i wybodaeth a syniadau ar dudalennau gwe, gan ddefnyddio gwahanol ffyrdd o chwilio ac asesu pa ffyrdd yw'r rhai mwyaf effeithlon	- defnyddio ystod o strategaethau i ddeall ystyr geiriau a brawddegau, gan gynnwys gwybodaeth ffonig, gwreiddiau geiriau, teuluoedd geiriau, cystrawen, trefn testun a gwybodaeth flaenorol am y cyd-destun - darllen testunau estynedig yn annibynnol am gyfnodau cyson - adnabod sut mae atalnodi'n perthyn i gystrawen brawddeg a sut mae ystyr yn cael ei lunio mewn brawddegau cymhleth - defnyddio ystod o strategaethau i gip ddarllen (sgimio), e.e. <i>dod o hyd i'r geiriau neu'r ymadroddion allweddol, y byrdwn, y prif syniadau, themâu</i> - llithr ddarllen (sganio) i ddod o hyd i fanylion penodol gan ddefnyddio trefnyddion graffig a thestunol, e.e. <i>is-benawdau, diagramau</i> - adnabod nodweddion testunau, e.e. <i>cyflwyniad i bwnc, dilyniant, darluniau, i ba raddau y mae'n ffurfiol</i> - defnyddio gwybodaeth o ffynonellau yr ymddiriedir ynddynt ar sgrin ac ar bapur, gan ddethol a lawrlwytho yn ôl yr angen	- defnyddio ystod o strategaethau i ddeall ystyr geiriau a brawddegau, gan gynnwys gwybodaeth ffonig, gwreiddiau geiriau, teuluoedd geiriau, cystrawen, trefn testun a gwybodaeth flaenorol am y cyd-destun - darllen testunau cymhleth yn annibynnol am gyfnodau cyson - deall sut gall atalnodi amrywio, gan effeithio ar gystrawen ac ystyr y frawddeg, e.e. <i>Ces i gacen(!) siocled a chaws i de</i> - defnyddio ystod o strategaethau i ddod o hyd i wybodaeth, e.e. <i>cip ddarllen (sgimio) am gynnwys bras, llithr ddarllen (sganio) am fanylion</i> - darllen yn fanwl, gan wneud nodiadau at ddibenion penodol - chwilio ar y rhyngwrdd yn ofalus gan benderfynu pa ffynonellau i'w darllen a'u credu
	Darllen a deall	- nodi'n gywir y prif syniadau a'r wybodaeth ategol mewn testunau - dod i gasgliad ynglŷn â'r cysylltiadau rhwng gwybodaeth, e.e. <i>dilyniant, pwysigrwydd</i> - archwilio gwybodaeth a syniadau'r tu hwnt i'w profiad personol	- dangos dealltwriaeth o'r prif bwyntiau a'r manylion arwyddocaol mewn testunau, e.e. <i>map meddwl gan osod syniadau yn nhrefn pwysigrwydd, siart lif sy'n nodi proses</i> - dehongli ystyr nad yw wedi'i ddatgan yn bendant, e.e. <i>beth sy'n digwydd nesaf?, pam gwnaeth hilef hynny?</i> - adnabod ac archwilio syniadau a gwybodaeth sydd o ddiddordeb iddynt	- dangos dealltwriaeth o'r prif syniadau a manylion arwyddocaol mewn testunau gwahanol ar yr un pwnc - dehongli syniadau nad ydynt wedi'u datgan yn bendant, e.e. <i>safbwyntiau neu agweddau'r awdur</i> - adnabod syniadau a gwybodaeth sydd o ddiddordeb iddynt i ddatblygu dealltwriaeth bellach
Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd	Ymateb a dadansoddi	- dewis a defnyddio gwybodaeth a syniadau o destunau - deall sut y gall rhywbeth gael ei gynrychioli ar ffurfiau gwahanol, e.e. <i>delwedd symudol, aml-foddol a phrint</i>.	- cydgasglu a threfnu gwybodaeth a syniadau o ffynonellau gwahanol - dehongli'r hyn y mae awdur yn ei feddwl am y pwnc, e.e. <i>edmygu person hanesyddol, diddordeb yn unig mewn ffeithiau</i> - pwysu a mesur a yw'r cynnwys yn ddibynadwy, e.e. <i>ydy ffotograffau'n fwy dibynadwy na lluniau?</i>	- cydgasglu a gwneud cysylltiadau, e.e. <i>blaenoriaethu, categorieiddio</i>, rhwng gwybodaeth a syniadau o ffynonellau gwahanol - gwahaniaethu rhwng ffeithiau, damcaniaethau a barn - ystyried safbwyntiau awduron gwahanol ar yr un pwnc, e.e. <i>mae llygod mawr yn ddiddorol neu'n broblem</i> - ystyried a yw testun yn effeithiol i gyfleu gwybodaeth a syniadau.

Supercharged literacy and language learning.

An accessible and engaging platform of curriculum-aligned online literacy resources and multilingual texts, for children aged 3-14.

What is Giglets?

Book a Demo

★★★★★ 4.6/5 from 29 reviews on ^{edtech}impact

[Giglets](#)



100K+

Pupils



40K+

Superhero Teachers



1,500+

Engaging Texts



38+


Languages

Pa adnoddau sydd ar gael?




Shared reading is an essential step in the effective teaching of writing. In the course of reading a shared text with a class, you can, as well as focusing on teaching them how to read this text, also teach a deal about how the text is structured. A highly developed familiarity with the structure of a text is necessary if children are subsequently to write texts like this themselves.


Medwell et al.(2014)



A Frog's Life



A Legend of Knockmany
William Carleton



A Sporting Star



Bangladesh




Budgerigar Fact File



Champions:
Deserving the Name




Chicken Licken




Eletelephony
Laura Richards



Leatherback Turtle
Fact File




Othello
William Shakespeare




The Caterpillar
Christina Rossetti



The Fartomaniac



The Jungle Book
Rudyard Kipling



The Rainbow
Christina Rossetti




The Three Bears

Addas at ba oedran?

A oes thema penodol?






Darllen unigol, grwp neu dosbarth cyfan?



The screenshot shows the Gemini Storybook website. At the top is a navigation bar with the Gemini logo (a colorful star) and the word "Gemini". To the right of the logo are links: "Free for Students", "What Gemini Can Do" with a dropdown arrow, "Subscriptions", and "About Gemini" with a dropdown arrow. Further right are social media icons for Instagram, TikTok, Discord, and X. On the far right of the navigation bar is a blue button that says "Try Gemini". Below the navigation bar is a large white section. In the center of this section is the title "Gemini Storybook" in a large, bold font, with "Gemini" in black and "Storybook" in blue. Below the title is a paragraph of text: "Create personalized, illustrated stories about anything with read-aloud narration. Just describe the story you want, add files and photos if you like, and Gemini will create a unique 10-page storybook. Leave no story left untold." At the bottom of this white section is a blue button with the text "Start your story" in white.

Creu llyfr stori

Llyfrau / Dogfennau a gyfeiriwyd atynt yn y ddarlith hon:



Darllenwch!

